adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

# Ansawdd adnoddau: rhestr wirio cyn cyhoeddi

Mae'r rhestr wirio hon yn gosod disgwyliadau clir yn seiliedig ar safonau, gan eich helpu i fod yn hyderus wrth greu adnoddau o ansawdd da. Mae'r rhestr yn rhoi sylw i bob agwedd ar y gwaith datblygu a chreu, waeth beth fo'r math o gynnwys neu'r fformat. Er na fydd pob pwynt yn berthnasol i bob adnodd, dylech ddefnyddio'r rhestr wirio hon fel fframwaith i'ch arwain.

Dylai cyflenwyr sicrhau bod y llif gwaith yn cynnwys digon o amser, capasiti a chamau adolygu fel bod yr holl wiriadau ansawdd yn cael eu cwblhau'n llawn cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r prosiect terfynol.

**Nodyn pwysig:** Pan fydd adnoddau'n cael eu creu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i gyflenwyr sicrhau bod ansawdd yr adnodd, ei gywirdeb, a'r modd y mae wedi'i gyflwyno yr un fath yn union yn y ddwy fersiwn.

**1. Cywirdeb y cynnwys, a chyd-fynd â'r cwricwlwm**

☐ Mae'r adnodd yn cyd-fynd yn glir â'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad perthnasol

☐ Mae'r cynnwys yn hybu cynnydd a'r deilliannau dysgu a fwriedir, ynghyd â datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd

☐ Mae'r cyfeiriadau at gamau cynnydd yn briodol ac yn gywir

☐ Mae'r holl ffeithiau, dyddiadau, enghreifftiau a chyfrifiadau yn gywir

☐ Mae arbenigwr pwnc wedi bwrw golwg ar yr wybodaeth a'r cynnwys a gyflwynir

☐ Mae'r holl gyfeiriadau a'r ffynonellau yn gredadwy ac yn gyfredol

☐ Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod yr adnodd yn berthnasol i Gymru o ran ei elfennau diwylliannol, ieithyddol a chyd-destunol

☐ Mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath yn union o ran eu cynnwys, eu hystyr a'u trefn

---

**2. Ansawdd addysgu a dysgu**

☐ Mae'r cynnwys yn briodol i'r oedran a'r cam cynnydd

☐ Mae'r dysgu'n symud yn ei flaen mewn trefn resymegol

☐ Mae modd addasu'r adnoddau (yn hytrach na'u bod yn rhagnodol), a dydyn nhw ddim yn cynnwys cynlluniau gwersi

☐ Mae opsiynau i gael fersiynau gwahanol o adnoddau, er mwyn ateb anghenion amrywiol (e.e. i roi mwy o her neu mwy o gymorth)

☐ Mae'r gweithgareddau'n cyd-fynd â'r addysgeg arfaethedig (e.e. cyfarwyddyd uniongyrchol, yn seiliedig ar ymchwilio)

☐ Mae'r tasgau'n cyd-fynd ag amcanion dysgu

☐ Mae'r enghreifftiau'n glir ac yn adeiladol

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

☐ Mae'r adnodd wedi cael ei brofi neu ei adolygu gan ymarferwyr/dysgwyr cynrychioliadol i asesu pa mor ddifyr ydyw, sut mae'n ennyn diddordeb, ei eglurder, ei berthnasedd ac ati

---

**3. Adnoddau cynhwysol, hygyrch a chynrychioliadol**

☐ Mae'r iaith yn glir ac yn gynhwysol, heb ddangos dim rhagfarn

☐ Mae'r deunydd enghreifftiol yn adlewyrchu cefndiroedd a phrofiadau amrywiol

☐ Mae'r delweddau a'r darluniau'n addas i'r oedran dan sylw ac yn dangos parch diwylliannol

☐ Mae'r adnodd yn cyflawni gofynion hygyrchedd (e.e. safonau WCAG 2.2 AA ar gyfer deunydd digidol)

☐ Mae testun amgen i gyd-fynd â'r delweddau (digidol)

☐ Cyferbynnedd lliw sy'n addas ar gyfer argraffu a sgriniau

☐ Y lliw cefndirol, y ffurfdeip, maint y ffont a'r cynllun yn addas i ddysgwyr sydd ag ADY

☐ Y drefn ddarllen a threfn y tabiau'n gywir

☐ Capsiynau a thrawsgrifiadau wedi'u hychwanegu at ddeunydd sain/fideo

☐ Y cywair a'r dafodiaith Gymraeg yn gyson ac yn briodol

---

**4. Rhwyddineb y darllen a chywirdeb yr iaith**

☐ Y ramadeg, y sillafu a'r atalnodi'n gywir

☐ Y bylchau rhwng y llinellau (y 'rhynglinellu') yn briodol, yn help i ddarllen yn gyfforddus, ac yn gyson drwy'r holl adnodd

☐ Y bylchau rhwng geiriau'n gyson, heb orlenwi na bylchau gormodol

☐ Y bylchau rhwng paragraffau'n gyson ac yn helpu i ddarllen yn rhwydd

☐ Y ffurfdeip / ffont yn briodol ar gyfer y gynulleidfa a'r fformat arfaethedig, heb i hynny achosi unrhyw broblemau o ran rhwyddineb y darllen

☐ Y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn defnyddio iaith glir a naturiol

☐ Nid yw'r adnoddau Cymraeg yn cynnwys unrhyw eiriau Saesneg, ac eithrio pan fydd hynny'n fwriadol

☐ Y derminoleg yn gywir ac yn cyd-fynd â'r holl ganllawiau sydd wedi'u cymeradwyo, pan fydd hynny'n berthnasol (e.e. Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, Terminoleg y Gymraeg ym maes Hil ac Ethnigrwydd, Byd Term Cymru / Y Termiadur)

☐ Mae'r derminoleg yn gyson

☐ Mae hyd a chymhlethdod brawddegau'n addas i'r grŵp oedran / y gynulleidfa arfaethedig

☐ Mae'r cyfarwyddiadau'n glir ac yn ddiamwys

☐ Mae lefel yr iaith wedi'i gwirio (e.e. CEFR)

☐ Mae'r fersiwn Gymraeg wedi'i gwirio gan gyfieithydd proffesiynol a / neu arbenigwr Cymraeg yn y maes perthnasol (e.e. mathemateg)

☐ Mae'r dôn a'r arddull yn gyson drwy'r holl adnoddau ☐ Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yr un fath â'i gilydd

---

**5. Cynllun, strwythur a fformatio**

***Fersiynau print***

☐ Mae rhifau'r tudalennau'n gywir ac yn y drefn gywir

☐ Mae'r penawdau'n dilyn hierarchaeth gyson (lleoliad, ffurfdeip, maint y ffont)

☐ Mae'r delweddau, y diagramau, a'r deunyddiau gweledol eraill wedi'u gosod yn briodol ac yn cyd-fynd â'r cynnwys o'u cwmpas

☐ Dim testun coll nac elfennau sy'n gorgyffwrdd

☐ Mae gosodiadau'r ymylon, yr ymylon rhwymo a'r ymylon gwaedu yn gywir

☐ Mae gofod gwyn yn gwella rhwyddineb y darllen ac yn cael ei ddefnyddio'n fwriadol

☐ Mae ansawdd yr argraffu'n cyrraedd y safonau disgwyliedig (yn gyson o ran lliw, cyferbynnedd a siarprwydd)

☐ Mae'r rhwymiad yn ddiogel ac yn gadarn – yn addas ar gyfer y defnydd arfaethedig (e.e. i'w ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth, i'w ddefnyddio dro ar ôl tro)

☐ Mae'r gorffeniad terfynol yn lân ac yn broffesiynol (dim blerwch, marciau, camalinio)

☐ Mae'r holl ddeunyddiau wedi cael eu profi a'u cymeradwyo o ran eu diogelwch

☐ Mae'r stoc bapur wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth neu'n dod o ffynhonnell gynaliadwy arall sydd wedi'i chadarnhau

***Fersiynau digidol***

☐ Mae modd golygu'r ffeiliau ac maen nhw wedi'u strwythuro'n glir

☐ Mae modd llywio drwy'r deunydd fel y bwriadwyd (y dewislenni, y botymau, y dolenni)

☐ Mae'r cynllun yn addasu'n dda ar wahanol ddyfeisiau (dyfeisiau symudol, tabledi, byrddau gwaith)

☐ Mae'r elfennau rhyngweithiol yn gweithio'n gywir ac yn perfformio'n ddibynadwy

☐ Mae'r ffeiliau amlgyfrwng (sain/fideo) yn llwytho, yn chwarae ac yn cysoni'n gywir

☐ Nid oes dolenni wedi torri yn yr adnodd

☐ Mae'r dolenni sydd wedi'u mewnblannu mewn adnoddau Cymraeg yn cyfeirio defnyddwyr at fersiynau Cymraeg (nid Saesneg) o wefannau neu ddogfennau allanol, pan fydd y fersiynau hynny ar gael

☐ Mae'r fformatio'n parhau'n gyson ar wahanol borwyr

☐ Mae'r golygu'n gywir, yn gyson, yn darllen yn dda, ac heb wallau technegol neu wallau yn y cynnwys

☐ Mae ansawdd y sain yn glir, yn gytbwys a heb ei aflunio

☐ Mae'r adnodd yn gydnaws ag offer llefaru testun, lle bo hynny'n berthnasol

☐ Mae modd defnyddio darllenydd sgrin yn llawn gyda'r adnodd

☐ Mae capsiynau caeedig wedi'u mewnblannu a/neu mae trawsgrifiadau ar gael, pan fydd hynny'n berthnasol

☐ Mae'r holl nodweddion hygyrchedd yn gweithio'n gywir ac maen nhw'n hawdd eu canfod

---

**6. Delweddau a chyfryngau**

☐ Mae cydraniad y delweddau'n briodol

☐ Mae caniatâd hawlfraint wedi'i roi

☐ Mae'r capsiynau a'r labeli'n gywir

☐ Mae'r graffiau/diagramau yn cyd-fynd â'r testun

☐ Mae'r cyfryngau yn briodol i'r oedran

☐ Mae'r darluniau ac arddull yr eiconau'n gyson drwy'r holl adnodd

---

**7. Ansawdd technegol (adnoddau digidol yn unig)**

☐ Mae'r ffeiliau'n llwytho heb wallau

☐ Cadarnhawyd bod yr adnodd yn gydnaws â phlatfform Hwb. Mae modd gweld a defnyddio'r adnoddau'n rhad ac am ddim, heb fod angen mewngofnodi ymhellach

☐ Mae'r llwybrau byr hygyrchedd yn gweithio

☐ Nid yw maint y ffeiliau'n rhy fawr

☐ Mae'r adnodd yn gweithio ar ddyfeisiau niferus

☐ Mae'r adnodd yn gweithio ar osodiad lled band isel neu all-lein (pan fydd angen hynny)

☐ Mae'r amser llwytho o fewn terfynau derbyniol

---

**8. Diogelwch, materion cyfreithiol a chydymffurfiaeth**

☐ Mae'r archwiliadau hawlfraint / trwyddedu wedi'u gwneud

☐ Mae caniatâd wedi'i roi ar gyfer cynnwys trydydd parti

☐ Mae'r gofynion preifatrwydd / trin data wedi'u cyflawni

☐ Nid oes cynnwys niweidiol, sarhaus neu amhriodol

☐ Mae'r ystyriaethau diogelu wedi cael sylw (e.e. dolenni ar-lein)

☐ Mae'r dolenni i gynnwys allanol yn ddiogel ac yn ddibynadwy

☐ Nid oes plant y gellir eu hadnabod mewn delweddau (oni bai bod caniatâd wedi'i gofnodi)

☐ Mae'r adnodd yn cydymffurfio â chanllawiau diogelu Llywodraeth Cymru

---

**9. Golygu ac adolygu'r dyluniad yn derfynol**

☐ Mae'r canllaw arddull i gyflenwyr wedi'i ddilyn

☐ Mae brandio Adnodd wedi'i ddefnyddio'n gywir (os yw hynny'n berthnasol)

☐ Mae'r eirfa, y mynegai a'r atodiadau'n gywir

☐ Mae'r rheolydd fersiynau'n gywir

☐ Mae enwau'r ffeiliau a'r metadata yn dilyn confensiynau ac yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg

---

**10. Cymeradwyaeth derfynol**

☐ Cymeradwyaeth arbenigwr pwnc
☐ Cymeradwyaeth olygyddol
☐ Cymeradwyaeth yr archwiliad hygyrchedd
☐ Cymeradwyaeth i'r dyluniad
☐ Cymeradwyaeth o ran yr hawlfraint / caniatâd / cydymffurfiaeth gyfreithiol
☐ Y rhestr wirio lawn ar gyfer sicrhau ansawdd wedi'i chwblhau a'i harchifo
☐ Rheolwr y prosiect wedi cymeradwyo
☐ Yn barod i'w gyhoeddi